Cofnodion cyfarfod rithiol 9 Mawrth 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Cynog Prys	
Lliwen Griffith-Williams	Nerys John	
Iwan Huws	Emyr Gareth	
Eifion Williams	Dafydd Huws	
	Llŷr Evans	
Cynghorydd Sir Gareth Griffiths		
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Elliw Williams a Casi Roberts.	
1.1	Croesawodd Y Cadeirydd Iwan Huws Llifon Foulkes Swyddog Cyngor Gwynedd i gyflwyno adroddiad ynglŷn â throsglwyddo cyfrifoldebau Caeau Chwarae'r Felinheli yn eiddo'r Cyngor Gwynedd i Gyngor Cymuned Y Felinheli. Roedd wedi anfon gwybodaeth ynglŷn â chostau ac adroddiadau blynyddol diweddar am y ddau gae chware o flaen llaw. Dywedodd ei fod wedi bod yn y Swydd ers blwyddyn a hanner a bod y Swyddog blaenorol wedi anfon llythyrau at Gynghorau Cymuned i edrych os byddent hwy a diddordeb o gymryd cyfrifoldebau amdanynt. Hyd yma mae rhai cynghorau Cymuned wedi gwneud. Roedd ei uwch reolwr yn methu bod yn bresennol ond byddai yn ateb cwestiynau fel yr oedd yn gallu. Gofynnwyd pam roedd Gwynedd yn gwneud hyn a chafwyd gwybodaeth oddi wrth y Cynghorydd Sir bod hwn yn un o'r cynlluniau ar y rhestr arbedion gan Gyngor Gwynedd. Gofynnodd y Cynghorydd Nerys John am eglurhad i'r gost o 3 mil ar Gae'r Wern; roedd y gost yn cynnwys paentio a chyflwyno coed newydd o amgylch yr ardaloedd matiau rwber. Nid yw paentio yn digwydd yn flynyddol ond yn hytrach pob tair neu bedair blynedd. Fel arfer mae archwiliadau misol yn dangos pa bryd mae'r gwaith yma yn angenrheidiol. Yn flynyddol bydd y matiau rwber yn derby neu olchi (jetwash) oherwydd tyfiant mwsogl dros y gaeaf. Mae cost hefyd ar gyfer torri gwair y caeau. Gwnaethpwyd cais gan y Cynghorydd Daniel Williams ar gyfer, rhestr o'r gwaith cynnal sydd ei angen a chymhwyster swyddog/person ar gyfer archwiliadau'r caeau. Llifon Foulkes i anfon y wybodaeth ymlaen. Eglurodd Y Swyddog bod trefn yn bodoli yn Llanberis lle mae Cyngor Gwynedd yn parhau i archwilio Cae Chwarae'r Llyn a bod unrhyw waith angenrheidiol yn cael eu trefnu a Cyngor Cymuned Llanberis yn derbyn anfoneb am y gwaith. Nid oedd yn credu bod Cyngor Llanberis yn talu am yr	

	archwiliadau oherwydd bod hyn yn rhan o amserlen archwiliadau caeau'r Cyngor Sir. Dywedodd y Swyddog byddai yn dod o hyd i'r wybodaeth a gyfeiriwyd ato a'i anfon at y Clerc. Dywedodd y Cadeirydd byddai dim yn digwydd hyd nes Ebrill 2022 a bod amser i ystyried y mater a threfnu cyllideb ac yn y blaen. Diolchodd i'r Swyddog am ei amser.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Roedd y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths yn bresennol drwy gydol y cyfarfod ac yn cyfrannu fel roedd angen.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Adroddiad gwariant am fis Chwefror. Dywedodd bod sawl siec ar gyfer cymorth ariannol i gymdeithasau heb eu cyflwyno i'r banciau ond efallai eu bod erbyn hyn ond nid oedd mantolen wedi ei dderbyn. Fei derbyniwyd fel rhai cywir. Roedd hefyd wedi anfon at Y Regata ar gyfer derby neu fantolen	
4.2	Cynllun Cynnal Cofeb y Cloc - rhoddwyd eglurhad o gynllun tair blynedd gan y Swyddog Ariannol, sef £475 neu £177 yn flynyddol. Derbyniwyd y cynllun tair blynedd.	
4.3	Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: Adroddiad Blynyddol 2021 i 2022. - cyflwynwyd y ddogfen fel gwybodaeth yn ystod y mis. Dywedodd y Swyddog Ariannol bod sieciau cydnabyddiaeth wedi eu hanfon at y Cynghorwyr a gofynnwyd yn garedig iddynt gael eu cyflwyno i'r banciau cyn diwedd y mis oherwydd ei bod yn ddiwedd blwyddyn a bod angen cau'r llyfrau.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Chwefror 2021 fel rhai cywir.	**CLERC**
5.2	Paentio'r Toiledau - dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth gontractwr bod deunydd hwyneb y toiledau yn "rough Cast" felly byddai paentio'r wyneb yma ddim yn llwyddiannus heb roi plaster cymysg o dywod a sment arno cyn ei baentio. Roedd y Cyngor yn fodlon gyda hyn; y Cynghorydd Daniel Williams i gael pris am y gwaith hwn. Garddwr - nid oedd y Cynghorydd Casi Roberts yn bresennol i dderbyn gwybodaeth ddiweddaraf am hyn. Mainc uwchben stepiau Cei – Y Contractor i orffen y gwaith erbyn diwedd diwedd mis Mawrth. Llwybyr ar lan y fenai – Dim ymateb gan y swyddog perthnasol. Trosglwyddo fel eitem agenda eto i gyfarfod mis Ebrill.	

	Baw Ci – mae gwybodaeth wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd a'r ardaloedd o fewn y pentref sydd angen sylw. Ni does gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am y "Taskforce" i edrych ar y mater o faw ci o fewn y Sir.	
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	Rhif Cais: C21/0151/20/DT Lleoliad: Cil Dderwen, Y Felinheli, LL56 4JR Bwriad : Cais ar gyfer codi estyniad deulawr to gwastad i ochr a chefn yr eiddo. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.2	Ymgynghoriad cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio - Tir yn 14 Porth y Llechen Y Felinheli. Nid ymgynghoriad ffurfiol oddi wrth Gyngor Gwynedd oedd hwn ond ymgynghoriad oddi wrth asiant y Marine Group. Cafwyd gwybodaeth oddi wrth y Cynghorydd Sir bod dau hawl cynllunio byw ar y safle, sef hawl cynllunio ar gyfer 4 fflat a hawl cynllunio ar gyfer codi 3 tŷ. Roedd y Cyngor yn unfrydol yn gwrthwynebu'r dyblygiad gan ddatgan y canlynol fel sylwadau. • Byddai cyflwyno'r datblygiad yn orr-ddatblygu yr ardal, teimlir bod yr ardal wedi ei ddatblygu'n ddigonol yn barod. • Nid yw'r datblygiad yn cynnig dim i'r pentref nac ychwaith tuag at barhad a chynhaliaeth yr Iaith Gymraeg. • Nid yw'r dyluniad yn gweddu i gymeriad yr ardal. • Byddai'r datblygiad yn cynyddu'r drafnidiaeth sydd yn broblem ar hyn y bryd. • Nid yw'r maint yn gweddu i gymeriad yr ardal. • Mae'r datblygiad yn dadleoli'r cychod sydd ar hyn o bryd yn cael eu cad war y safle.	
6.3	Rhif Achos.: Y21/0165 Lleoliad: Pant Erys, 34 Glan Y Môr, Y Felinheli, LL56 4RQ Manylion : Codi 3 TY SYLWADAU: • Nid yw'r dyluniad yn gweddu i gymeriad yr ardal. • Mae cerbydau yn croesi'r palmant yn achos consyrn yng nghyswllt diogelwch i ddefnyddwyr y palmant fel plant a theuluoedd. • Mae tri llawr yn faint rhy fawr a ddim yn gweddu i'r ardal - cwestiynwyd os oedd tri llawr wedi ei gyflwyno oherwydd y risg o lifogydd ar y pryd y cyflwynwyd y cais yn wreiddiol ac efallai bydd y cynllun llifogydd diweddar yn caniatáu'r datblygwr i feddwl am ostwng maint y tai i ddau lawr. • Nid yw'r datblygiad yn datgan mai tai fforddiadwy ydynt nac ychwaith yn datgan eu bod ar gyfer pobol	

	leol. Roedd y Cyngor yn unfrydol nad oeddynt eisiau gweld rhagor o ail gartrefi na air B & Bs yn y pentref.	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Bydd meinciau fel pwnc yn cael ei drafod o dan brosiectau.	**DW**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod yr Is-bwyllgor Llwybrau ynghyd a thri Swyddog o Gyngor Gwynedd wedi cael cyfarfod rhithiol arbennig o fuddiol. Bydd y Clerc yn anfon cofnodion o'r cyfarfod. Cofnodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi danfon "Waymarkers" arwyddion saethau ar gyfer eu codi gan y Cyngor Cymuned ar lwybrau lle mae'r Cyngor Cymuned gyda pherthynas buddiol a'r tir feddianwyr. Bydd angen cofnodi eu lleoliad ac anfon y wybodaeth i Gyngor Gwynedd er mwyn ei nodi. Mae cofnod o'r cyfarfod i'w gweld yn yr atodiad.	**CLERC**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Deallir bod y cerbyd oedd wedi ei adael ar y maes parcio wedi symud. Trafodwyd y mater o gerbydau yn rhwystro mynedfa'r Sied. Mae hyn yn digwydd er bod marciau melyn yn bodoli. Penderfynwyd y byddai angen i'r is-bwyllgor ystyried mesur i ddatrys y sefyllfa.	**CLERC –**
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Meinciau ar Lan y Môr - cyflwynwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams bod un fainc wedi eu dadleoli oherwydd y gwaith cynllun llifogydd a bod angen ystyried lleoliad newydd iddi. Dangoswyd mapiau o'r ardal gyda'r meinciau i gyd arno. Roedd rhai yn wynebu i'r môr ac eraill yn wynebu'r tir yn enwedig y rhai o fewn y cae chwarae. Roedd wedi ymweld â'r safle gyda'r Cynghorydd Elliw Williams. Roedd y fainc yn wreiddiol tu allan i'r cae chwarae canlyniad o osod y ffens. Dywedodd bod tri awgrymiad sef: • Gosod y fainc ger y giât i'r cae chwarae yn wynebu'r môr a hefyd byddai yn caniatáu rhieni a gwarchodwyr i sylwi ar y plant yn chwarae. • Yn wynebu'r Clwb Hwylio - byddai hyn hefyd yn caniatáu rhieni neu warchodwyr i sylwi ar y plant yn chwarae neu • Rhywle ar y ffrynt yn wynebu'r môr Roedd hyn yn rhoi cyfle i ystyried os oedd y meinciau ar y gwyrdd wedi eu lleoli yn iawn hefyd oedd y meinciau o fewn y cae chwarae wedi eu lleoli yn iawn. Penderfynwyd ail leoli'r fainc o fewn y Cae Chwarae, y Cynghorydd Emyr Gareth i drafod gyda Swyddogion Gyngor Gwynedd ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb am y meinciau o fewn y Cae Chwarae, yr ail leoli ac yn y blaen.	**EG,**

10.2	Roedd cais wedi dod i law gan deulu i osod un ai fain car y fain car y tir gwyrdd fel coffadwriaeth i aelod y teulu neu i osod cofeb ar y wal. Penderfynwyd nad oedd y Cyngor Cymuned yn gallu rhoi caniatâd i osod mainc oherwydd nid oedd y tir o feddiant y Cyngor Cymuned. Mae meinciau coffa yn cael eu caniatáu o fewn y fynwent. Y Clerc i anfon at y teulu i ddatgan hyn ac iddynt gysylltu â'r Cynghorydd Sir. Nid oes gan y Cyngor bolisi ynglŷn â meinciau a phenderfynwyd byddai'r Clerc yn edrych ar hyn erbyn y cyfarfod nesaf. Roedd yr is-bwyllgor prosiectau wedi cydnabod bod angen mwy o feinciau a bod angen sicrhau gwedd ac edrychiad y meinciau cyn neu gyflwyno. Roedd y mater hwn yn sicrhau wedi rhoi cyfle i'r Cyngor ystyried i'r meinciau Cyngor Gwynedd i gyd gael eu gosod ar hyd y ffrynt ac os oedd y Cae Chwarae am fod o gyfrifoldeb i'r Cyngor Cymuned efallai byddai ail leoli a gosod meinciau newydd yn gallu bod yn rhan o drosglwyddiad y caeau chwarae.	**Swyddog Ariannol**
10.3	Cynllun Llifogydd Cymunedol - Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod cyfarfod wedi bod. Diolchodd I'r Cynghorydd Nerys John am drefnu'r parthau. Mae 15 path wedi ei adnabod, mae hysbysebion am wirfoddolwyr wedi bod ar facebook, y wefan, a phosteri wedi eu gosod. Hyd yma mae 9 Cynghorydd Cymuned wedi datgan eu bod yn barod i fod yn warden ynghyd a 12 aelod o'r gymuned wedi gwirfoddoli. Diolch i'r Cynghorydd Emyr Gareth a Casi Roberts am sefydlu ffurflen uniongyrchol nodi consyrn ynglŷn â materion llifogydd. Bydd angen sefydlu bod y ffurflenni yn mynd at y clerc. Mae'r cynllun hyd wedi ei ddechrau cael ei ddrafftio. Y Cynghorydd Daniel Williams am sicrhau cael ffurflenni cysylltiadau'r gwirfoddolwyr er mwyn eu hanfon ymlaen at Cyfoeth Naturiol Cymru.	
10.4	Cynllun Llifogydd Lan y Môr - bydd Agoriad Swyddogol yn Mis Ebrill. Cyflwynwyd adroddiad bod ychydig o gerrig "Coping Stones" yn rhydd a bydd y rhain yn derbyn sylw. Cydnabyddir bod rhai o'r llechi yn finiog are u corneli a byddant yn edrych ar beth y gellir i wneud a rhain. Mae blwyddyn rŵan hyd at adnabod diffygion fel snags lle bydd y contractwyr yn gyfrifol am sicrhau eu gwneud yn iawn. Roedd un mater wedi dod i sylw bod cerbydau hir yn parcio yn y safleoedd parcio ac yn parcio eu holwyn hechel ôl ar y cwrb oedd yn rhwystro defnydd o'r pafin. Mae'r mater yn un anodd Ei ddatrys heb osod bolardiau a byddai hyn ddim yn ddeniadol i wedd ag edrychiad y cynllun. Y mater i'w fonitro.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Y neuadd yn parhau ar gau. Gwaith CCTV tu allan i'r neuadd wedi ei gwblhau. Angen derbyn anfoneb oddi wrth y contractwr. Y Clerc i wneud ymholiadau ar gyfer derbyn un.	**DW**

	Mae ychydig o fan waith angen i wneud i'r neud cyn ei bod yn cael eu hagor pan mae codi'r cyfyngiadau yn caniatáu.	
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan. Mae	**CLERC**
13.0	Cae Ysgol – mae'r mater wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd Gareth Griffiths yn dweud fod hyn wedi cael ei drafod gan y llywodraethwyr yn eu cyfarfod diwethaf – angen cael adborth gan cynghorydd Iestyn Harris yn y cyfarfod nesaf. Nid oes cyfarfod wedi bod er mwyn gwybod beth oedd yr ymateb.	
14.0	Japanese Knotweed - mae cysylltiad wedi bod rhwng trigolion iStryd Bangor a Chyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer ymweliad safle.	
15.0	Japanese Knotweed - dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn - Y Clerc i ofyn am ddiweddariad.	
16.0	Wal ger y Marina – nid yw perchnogaeth y wal wedi ei ddatrys. Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud rhywfaint o waith ar y wal.	
17.0	Tir ar yr hen reilffordd - dywedodd y Clerc bod e-bost wedi ei dderbyn gan Mr Glyn Jones yn gofyn beth oedd y diweddariad ar y mater. Yn dilyn yr e-bost roedd y Clerc wedi siarad â'r Cynghorydd Daniel Williams cyn ei bod yn siarad â Mr Glyn Jones. Cyflwynwyd eglurhad iddo ar y mater bod cytundeb yn bodoli yn barod gan berson arall a bod y cytundeb yma wedi ei osod gan Gyngor Gwynedd ar ôl i'r tir gael ei gyflwyno a'r les i'r Cyngor Cymuned. Eglurwyd hefyd bod y Cyngor Cymuned wedi bod mewn cysylltiad â'r Adran Tai ag Eiddo i drio sortio hyn allan ond yn anffodus nid oes datblygiad diweddar wedi bod ar y mater. Roedd Mr Glyn Jones yn diolch am y wybodaeth a byddai rŵan yn gwneud trefniadau i drafod gyda'r adran ei hyn ar y mater.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		**Dyddiad:**

Cofnodion cyfarfod rhithiol Is-bwyllgor Llwybrau gyda Swyddogion Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fawrth 2021 am dri yn y prynhawn.		
Yn Bresennol		
Nerys John - CCF	Wyn Williams - CG	
Dafydd Huws – CCF	Dewi Owen - CG	
Emyr Gareth – CCF	Geraillt Jones - CG	
Heather Jones – Clerc CCF		
	Agorwyd y cyfarfod a phenderfynwyd byddai trefn y cyfarfod yn dilyn rhifau'r llwybrau o fewn y pentref, fel hyn roedd trefn y cyfarfod yn dilyn trefn yr arolwg.	
Llwybr 1	Dywedwyd bod angen arwyddion saeth (Waymarkers). Mae angen cael cytundeb gyda'r tir feddiannwr i osod yr arwyddion. Trafodwyd hyn a phenderfynwyd byddai CG yn caniatáu i CCF godi'r saethau lle mae cytundeb y tir feddianwyr yn gallu ei gael heb godi anawsterau. Mae rhai tir feddianwyr yn hysbys i'r CCF. Lle does dim perthynas rhwng y CCF a'r tir feddianwyr bydd hyn yn cael eu gadael i Swyddogion Cefn Gwald Cyngor Gwynedd. Bydd Geraillt Jones yn trefnu gollwng yr arwyddion i CCF yn y dyddiau nesaf.	
Llwybr 2	Gosod Arwyddion Saethau – CCF	
Llwybr 3	Mae anghysondeb yn bodoli ar y llwybr hwn – angen edrych arno ymhellach – CG	
Llwybr 23 & 23a	Archwylio cyflwr y camfeydd - CG	
Llwybr 4	Arwydd wedi eu guddio oherwydd tyfiant. CG am wneud cais i'r unigolyn. Mae'r stepiau mewn cyflwr drwg. CG – arwchwylio	
Llwybr 5	Gwaith cynnal yn gyfrifoldeb ar Gefnffyrdd – Y Clerc i gysylltu a'r Swyddog merfyn Morris.	
Llwybr 6	-	
Llwybr 7	Y Boardwalk wedi ei drwsio	
Llwybr 8	Cerrig yr Afon – Y Ffens wedi derbyn gwaith cynnal gan CCF	
Llwybr 9	-	
Llwybr 10	Anghofio arolygu hwn o eleni ymlaen	
Llwybr 11	Llwybr yn cychwyn yn iawn yna yn mynd i mewn i fuarth y fferm drwy silage - dim arwyddion	
Llwybr 12	Dim modd i'w ddefnyddio – dim arwyddion	
	Mae'r tri llwybr uchod yn dechrau yn y Felinheli ac yn gorffen yn Llanddeiniolen. Tra bod y llwybr yn gategori 2 yn y Felinheli mae yn gategori 3 a 4 yn Llanddeiniolen. Mae modd i ail sefydlu llwybr i beidio mynd drwy'r buarth. - CG	
Llwybr 13	Fel llwybr 10 a 12	
Llwybr 14	Tyfiant ochr Llanddeiniolen (llwybr 147)	
Llwybr 15	Cyfrifoldeb Cefnffyrdd – tyfiant ag arwydd wedi ei guddio.	
Llwybr 16	Canllaw newydd – Gobeithir godos wyneb newydd mis yma – CG	

Llwybr 17	Mae angen edrych o'r newydd ar y llwybr yma i ariannu wyneb newydd – CG	
Llwybr 18	Glanhau'r wyneb a chanllaw – ar raglen waith CG yn yr wythnosau nesaf.	
Llwybr 19	Llwybr hanesyddol pwysig. Mae perchnogion presennol ddim yn cydnabod y llwybr ond mae'r eiddo ar werth ac os bydd yn cael ei werthu yna bydd y perchennog newydd yn gwybod am y llwybr drwy "searches". CG i edrych ar y llwybr.	
Llwybr 20	Dim arwydd	
Llwybr 21	-	
Llwybr 22	Llwybr Afon Heulyn - Swyddog Cadwraeth CG Eryl Williams angen sortio'r broblem gyda'r wal (wedi ei chofrestru - CADW) prynant dir wedi bod yn ddiweddar. Mae peryg i ddefnyddwyr y llwybr oherwydd y coping stones sydd yn cael eu gwthio gan y tyfiant. Mae angen edrych hefyd ar wyneb y llwybr, angen ystyried wyneb concrid - mater i Ymgynghoriaeth Gwynedd. Gobeithir edrych os oes modd cael grant wneud y gwaith. CG i ddiweddaru CCF cyn gynted ac mae modd ynglŷn ag ail agor y llwybr.	
Llwybr 23b	Angen archwilio. Y bont wedi ei dymchwel ond mae modd croesi yr afon fechan. Mae arwyddion mewn lle i ddweud bod angen pwyll. Diwedd y llwybr yn LLanddiniolen (llwybr 111a)	
Llwybr 24	Gordyfiant	
Llwybr Rowen	Angen arwydd yng ngheg y llwybr ger y Surgery. Y llwybr ar raglen waith 2021 - 2022. Angen I'r gwaith cofrestru cael ei gwblhau - Euryn Williams CG.	